

**Cofnodion Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**  
**Dydd Iau, 13 Hydref 2022 10:00-11:30 MS Teams**

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**

Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cadeirydd  
Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg (10.30-11am)

Madeleine Brindley – Cynghorydd Arbennig

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)  
Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)  
Y Cyng. Jane Mudd (Casnewydd)  
Y Cyng. Ian Roberts (Sir y Fflint)  
Y Cyng. Rachel Garrick (Sir Fynwy)  
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)  
Y Cyng. Llinos Medi (Ynys Môn)  
Y Cyng. Dyfrig Lewis Siencyn (Gwynedd)  
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)

**Comisiynwyr Heddlu a Throsedd**

Peter Curran – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLILC  
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLILC  
Nigel Aurelius – Prif Swyddog Cyllid, Torfaen

**Swyddogion Polisi Llywodraeth Cymru**

Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd  
Emma Smith – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd  
Tim Evans – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd  
James Koe – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd  
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol  
Clare Blake - Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol  
Ben Crudge – Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol  
Matt Wellington – Y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth  
Pat Moran – Y Gyfarwyddiaeth Addysg – Ymgysylltu â'r Gweithlu  
Fran Jeremy – Y Gyfarwyddiaeth Addysg

**YMDDIHEURIADAU**

Y Cyng. Paul Griffiths (Mynwy)  
Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)  
Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru

**Cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid – 13 Hydref 2022**  
**Cofnodion y Cyfarfod**

Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu'r Argyfwng COVID

**Eitem 1: Croeso a chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i'r cyfarfod, gan nodi'r ymddiheuriadau.

**Eitem 2: Cofnodion a materion sy'n codir o'r cyfarfod blaenorol**

2. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafodd y camau gweithredu eu nodi a'u diweddarau. Camau gweithredu sydd wedi eu cario ymlaen:

**CAM GWEITHREDU: Y llythyr o ddiolch ar y cyd, y cytunwyd arno yn y cyfarfod diwethaf, wedi ei weithredu ac yn cynnwys cyfeiriad at Wcráin a chostau byw.**

**CAM GWEITHREDU: Anfon nodyn byr at yr aelodau yn rhoi manylion y trefniadau cyllid.**

**Eitem 3: Diweddariad gan y Gweinidog**

3. Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa gymhleth a heriol y gyllideb. Roedd effeithiau'r argyfwng dyngarol yn Wcráin, ac argyfwng parhaus y chwyddiant uchel a'r argyfwng costau byw cysylltiedig, yn ychwanegu at y pwysau sy'n bodoli eisoes yn sgil y pandemig a'r DU yn ymadael â'r UE. Roedd Cyllideb Cymru ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn werth hyd at £4bn yn llai mewn termau real o ganlyniad i chwyddiant. Yn ogystal â chostau uwch ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, megis mewn adeiladau ysgolion ac mewn gwasanaethau, roedd awdurdodau lleol a'r GIG yn wynebu codiadau sylweddol mewn costau ynni, sef sefyllfa sy'n peri pryder. Nododd y Gweinidog yr effaith yr oedd hyn yn ei chael ar aelwydydd, busnesau, a gwasanaethau cyhoeddus. Roedd angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol ganolbwyntio ar sut y gellid sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith orau posibl.
4. Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ynglŷn â chyd-destun y DU. Roedd y Canghellor wedi cadarnhau y byddai Cynllun Cyllidol Tymor Canolig ynghyd â rhagolwg gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn cael eu cyhoeddi ar gyfer 31 Hydref. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn ansicr beth fyddai effeithiau'r toriadau treth diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, ar Lywodraeth Cymru, a setliadau llywodraethau datganoledig eraill. Fodd bynnag, nodwyd y gallai swm o oddeutu £70m gael ei adennill oddi wrth Lywodraeth Cymru yn sgil y newidiadau i'r ardoll iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hi, a Gweinidogion Cyllid y Llywodraethau datganoledig eraill, wedi ysgrifennu ar y cyd i ofyn bod gweithredu brys yn digwydd i roi sylw i'r materion sy'n wynebu'r economi, gwasanaethau cyhoeddus, ac aelwydydd.
5. Byddai Llywodraeth Cymru yn cadw ei hamserlen arfaethedig ar gyfer ei chyllideb ddrafft. Roedd hon wedi ei threfnu ar gyfer 13 Rhagfyr, gyda'r setliad drafft ar

## Cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid – 13 Hydref 2022 Cofnodion y Cyfarfod

gyfer llywodraeth leol ar 14 Rhagfyr. Roedd bwriad i gyhoeddi'r gyllideb derfynol ar 28 Chwefror. Pwysleisiodd y Gweinidog y byddai angen gwneud dewisiadau anodd oni bai bod cynnydd yn setliad 23-24, ac y gallai cyllideb gwanwyn y DU waethygu'r sefyllfa. Hefyd, pwysleisiodd y Gweinidog fod galw parhaus ar Lywodraeth y DU i gydnabod effaith chwyddiant ar wasanaethau cyhoeddus drwy ddarparu cyllid ychwanegol.

6. Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith o ddiwygio trethi lleol. Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi ymgynghoriad yn ceisio sylwadau am ddiwygio ardrethi annomestig yng Nghymru. Tynnodd y Gweinidog sylw at y cynllun tymor hir i ystyried dulliau gweithredu amgen mewn perthynas â threthi lleol. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai diweddariadau rheolaidd yn parhau i gael eu darparu, gan gynnwys ar ôl sesiynau manylach gydag arweinwyr cyn lansio cam diweddaraf yr ymgynghoriad ar drethi. Croesawodd y Cynghorwyr y ffaith bod dull gweithredu'n seiliedig ar bartneriaeth yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod y dreth gyngor yn decach yn sgil Diwygio'r Dreth Gyngor.
7. Diolchodd y Gweinidog i aelodau'r grŵp am eu cefnogaeth barhaus i ymateb Cymru i gynorthwyo pobl Wcráin.
8. Adleisiodd aelodau'r grŵp bryder y Gweinidog ynghylch y sefyllfa ariannol, gan groesawu'r diweddariad am ddiwygio treth gyngor, yr ymgynghoriad ar ardrethi annomestig, a gweithio mewn partneriaeth ar gynlluniau sy'n ymwneud ag Wcráin.

### **Eitem 4: Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

9. Rhoddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddiweddariad i'r grŵp, a oedd yn cynnwys cyflwyno'r cwricwlwm, prydau ysgol am ddim, a chyflogau athrawon yng Nghymru. Diolchodd i'r awdurdodau lleol am eu hymdrechion wrth gyflwyno'r holl newidiadau pwysig hyn. Roedd yn cydnabod nad oedd y cynnig cyflog i athrawon yn cyfateb i'r cyfraddau chwyddiant uchel a bod tâl y staff nad oeddent yn addysgu yn parhau i gael ei negodi. Cododd y Cyng. Pritchard yr angen i gydnabod pwysigrwydd cynorthwywyr addysgu, gan nodi nad oedd eu telerau a'u hamodau cystal, gan gynnwys diffyg tâl yn ystod gwyliau'r ysgol.
10. Cododd yr aelodau faterion yn ymwneud â'r effaith y byddai chwyddiant prisiau bwyd a'r argyfwng ynni yn ei chael ar barhau i gyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl. Nodwyd y gwaith mewn partneriaeth a oedd yn digwydd ar y cyd â'r trydydd sector i gefnogi teuluoedd. Cadarnhaodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg fod gwaith yn dechrau gyda llywodraeth leol i ddeall costau unedol prydau ysgol am ddim, gan gynnwys effeithiau chwyddiant a chyfraddau'r rheini sy'n manteisio ar y cynllun.
11. Hefyd nododd yr aelodau nad oedd modd osgoi'r ffaith y byddai'r codiad sylweddol mewn costau adeiladu yn golygu na fyddai'n bosibl fforddio cynifer o

brosiectau ysgol, ac y byddai'n cymryd amser hirach i gwblhau'r rhaglen ysgolion cymunedol. Nododd y grŵp y byddai'r lefelau cymharol iach o gyllid wrth gefn ysgolion yn helpu i amddiffyn y rhan fwyaf o ysgolion rhag dioddef effaith uniongyrchol, er nad oedd hynny'n wir am bob ysgol, ond y byddai angen i ysgolion hefyd wneud arbedion ar sail cyllidebau presennol.

### **Eitem 5: Diweddariad CLILC ar faterion cyllid Llywodraeth Leol**

12. Cyflwynodd y Cyng. Hunt o CLILC bapur y Gymdeithas a oedd yn disgrifio'r cynnydd sylweddol mewn pwysau ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Roedd y papur yn ymdrin ag asesu chwyddiant cyflog a chwyddiant nad oedd yn ymwneud â chyflogau, ynghyd â chynnydd yn y galw am wasanaethau, gan ragweld diffyg cronol o £802m erbyn diwedd 2024-25. Roedd y papur yn defnyddio casgliad o ragolygon manwl gan gynghorau, a gellid darparu rhagor o fanylion ar ben hynny. Pwysleisiodd yr aelodau y posibilrwydd o golli nifer sylweddol o swyddi a thoriadau i wasanaethau er mwyn cydbwysu cyllidebau. Dywedodd y Cyng. Morgan y byddai'r cynnydd mewn costau ynni yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau craidd er gwaethaf cap ynni tymor byr Llywodraeth y DU.

### **Cam gweithredu: Jon Rae i rannu data arolwg cyllid manylach o adroddiad CLILC â swyddogion Llywodraeth Cymru.**

13. Dywedodd y Cyng. Hunt fod llywodraeth leol yn parhau i groesawu'r ymgysylltu agored â Llywodraeth Cymru. Roedd yn cydnabod y sefyllfa ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru, ond er gwaethaf hynny roedd yn gobeithio bod y flaenoriaeth yr oedd Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i lywodraeth leol ac i iechyd yn golygu y byddai cyllid yn cael ei gyfeirio tuag at ymateb i'r sefyllfa ddifrifol a oedd yn wynebu llywodraeth leol, pe bai cyllid ychwanegol yn dod ar gael. Hefyd cododd y Cyng. Pritchard yr angen i ystyried creu llawr ar gyfer setliadau. Roedd gan lywodraeth leol ddau beth penodol yr oedd eu hangen arnynt yn ogystal – ystyried pa fathau o hyblygrwydd, megis cyfalafu, a allai helpu hefyd; ac ymchwilio i drosglwyddo cyfran sylweddol o gyllid grant penodol i'r grant cymorth refeniw i leihau'r baich gweinyddu ar lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru ac i ganiatáu i awdurdodau lleol ymateb i flaenoriaethau mewn modd mwy hyblyg. Mewn achosion lle'r oedd grantiau'n cael eu cadw, roedd angen lleihau monitro a gweinyddu.

14. Yn ystod y drafodaeth, gofynnodd yr aelodau hefyd i Lywodraeth Cymru ystyried a oedd yr holl gynigion newydd ar gyfer darpariaeth llywodraeth leol yn briodol yn y cyfnod hwn, neu a ddylent gael eu hatal dros dro oherwydd yr argyfwng presennol.

15. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai swyddogion yn symud ymlaen â'r posibilrwydd o ymestyn cyfalafu. Roedd yn awyddus i hwyluso trafodaethau â chydweithwyr gweinidogol ar grantiau penodol. Roedd yr her gyllidebol yn ddifrifol ac roedd Cabinet Llywodraeth Cymru, fel llywodraeth leol, yn ystyried pa bethau

yr oedd angen eu harafu neu eu lleihau. Roedd yn rhaid iddynt hefyd fod yn ymwybodol o'r angen i gyflawni mewn perthynas ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Gofynnodd i CLILC ysgrifennu i gadarnhau'r grantiau penodol y byddai am ganolbwyntio arnynt, a pha rai o'r cynigion newydd oedd yn golygu bod angen i lywodraeth leol ddefnyddio adnoddau yn y modd mwyaf dwys, er mwyn helpu i lywio ystyriaethau Llywodraeth Cymru.

**Cam gweithredu: CLILC i ysgrifennu i gynnig y meysydd grant penodol lle mae angen iddynt gael mwy o hyblygrwydd ac i nodi meysydd gweithgarwch a oedd yn gofyn am ddefnyddio adnoddau yn y modd mwyaf dwys.**

### **Eitem 6: Adroddiad cynnydd drafft yr Is-grŵp Dosbarthu**

16. Cyflwynodd y Gweinidog Judith Cole i gyflwyno papur 3. Roedd y papur yn crynhoi gwaith parhaus yr Is-grŵp Dosbarthu, gan gynnwys y gwaith o ddiweddarau data a ddefnyddir fel rhan o'r fformiwla dosbarthu yn sgil trafodaethau yn yr Is-grŵp Cyllid ym mis Gorffennaf. Roedd y papur yn cadarnhau bod y grŵp yn argymhell y canlynol oni bai bod y gwaith a oedd yn mynd rhagddo yn dangos bod angen newidiadau sylweddol:

- Defnyddio dull gweithredu hybrid ar gyfer data poblogaeth i setliad 2023-24;
- Parhau i ddefnyddio data cyllidebu 2022-2023 (sy'n llywio gwaith cyfrifyddu ar lefel y sector), ond parhau i ddefnyddio'r data gwariant alldro (RO) ar gyfer 2019-20 (sy'n llywio'r gwaith cyfrifyddu ar lefel y gwasanaeth) gan fod effeithiau gwariant COVID yn parhau i wyrdroi'r data gwariant;
- Parhau i rewi setiau data megis twristiaeth oherwydd y pandemig.

Cytunodd y grŵp ar y dull gweithredu, er bod rhai aelodau'n dweud eu bod yn dal i bryderu am y ffaith bod rhai o'r data a ddefnyddir yn y fformiwla yn hen.

17. Trafododd y grŵp waith y tymor canolig a'r tymor hir. Eglurodd Judith fod data'r cyfrifiad yn cael eu cyhoeddi mewn camau, ac na fyddai llawer o'r data manwl ar gael ar gyfer setliad 2023-2024 – er enghraifft ar ethnigrwydd. Unwaith bod amserlenni cliriach ar gyfer dadansoddiadau demograffig yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021 ar gael, byddai cynllun gwaith yr Is-grŵp Dosbarthu yn adlewyrchu'r amserlenni hynny, gyda'r bwriad o ymchwilio iddynt er mwyn eu defnyddio yn setliad 2024-25 lle bo hynny'n bosibl. Dywedodd y Cyng. Roberts ei fod yn parhau'n bryderus ynglŷn â defnyddio hen ddata yn y fformiwla gwasanaethau cymdeithasol. Cadarnhaodd Judith fod yr elfennau teneurwydd yn dibynnu ar ddata a oedd yn sylweddol hŷn, er bod llawer o'r data a ddefnyddir yn yr elfen gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu diweddarau bob blwyddyn. Roedd ystyriaeth o fesurau teneurwydd, a oedd wedi cael eu diweddarau, yn rhan o'r gwaith yr oedd yr Is-grŵp Dosbarthu yn bwriadu ei wneud. Nododd Judith fod y

fformiwla gwasanaethau cymdeithasol wedi newid yn fwy diweddar pan oedd y pwysoliad teneurwydd mewn gofal cymdeithasol wedi cael ei gynyddu. Yn yr un modd, byddai angen edrych eto ar ddangosyddion lles a dangosyddion amddifadedd eraill, megis prydau ysgol am ddim. Nododd Judith y byddai'r gwaith o ddiwygio'r dreth gyngor, a drafodwyd yn gynharach, hefyd yn cael effaith sylweddol ar ddosbarthu.

**Cam gweithredu: Llywodraeth Cymru i ddarparu amserlen ar gyfer yr amrywiaeth o allbynnau'r cyfrifiad sy'n yn dod ar gael a fyddai'n gallu bod yn sail i'r setliad, gan sicrhau bod mwy o fanylion yn cael eu darparu yng nghynllun gwaith yr Is-grŵp Dosbarthu.**

**Cam gweithredu : Llywodraeth Cymru i ystyried sut y dylid adrodd ar y cynllun gwaith a chynnydd, yn ychwanegol at y cyhoeddiad blynyddol.**

### **Eitem 7: Diweddariad y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**

18. Rhoddodd Peter Curran ddiweddariad ar y prif faterion cyllid sy'n wynebu'r heddlu yng Nghymru ar hyn o bryd, gan gynnwys cyflogau'r heddlu, lefelau staffio a chyllideb yr heddlu. Roedd y papur yn tynnu sylw at effeithiau chwyddiant nad oeddent yn ymwneud â chyflogau, a chodiadau cyflog a oedd yn uwch nag y cynlluniwyd ar eu cyfer. Yn gryno, roedd heddluoedd Cymru yn rhagweld diffyg o £40m, ac roedd disgwyl i gyfanswm y cyllid wrth gefn leihau £72m erbyn mis Mawrth 2024. Bydd y cyllid benthyg i gefnogi Gwariant Cyfalaf yn cynyddu £129m erbyn 2024. Roedd yr heddluoedd yn rhagweld gostyngiadau yn staff yr heddlu, er y byddai'r ymrwymiad i ddarparu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yn parhau. Roedd yn nodi'r twf is mewn incwm treth gyngor yng Nghymru, o gymharu â Lloegr, ac effaith hynny ar gyllid yr heddlu. Cadarnhaodd swyddogion (mewn eglurhad cysylltiedig) nad oedd angen refferendwm ar gyfer codiadau treth gyngor ar gyfer ariannu'r heddlu yng Nghymru. Er bod pwerau posibl ar gael i gyfyngu ar godiadau treth gyngor ar gyfer awdurdodau lleol a'r heddlu, nid oedd y pwerau hynny wedi cael eu defnyddio yn ystod y blynyddoedd diweddar. Tynnodd Peter Curran sylw'r grŵp at y gwaith sy'n mynd rhagddo i wneud achos o blaid sicrhau cyllid ychwanegol i Heddlu De Cymru, oherwydd y cyfrifoldebau dros blismona'r brifddinas.

### **Eitem 8: Unrhyw fater arall**

19. Nid oedd unrhyw faterion eraill.